



CYMDEITHAS RYNGWLADOL Y COMISIYNWYR IAITH  
INTERNATIONAL ASSOCIATION OF LANGUAGE COMMISSIONERS




Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

## Deddf yr Iaith Gymraeg 1967: Yr Hanner Canrif Cyntaf

Y Gwir Anrhydeddus Syr David Lloyd Jones,  
Arglwydd Ustus Apêl

Caerdydd, 16 Mai 2017

Cyflwynwyd y papur hwn gyntaf yn y Pierhead ar achlysur lansio Cynhadledd Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith. Dymuna Comisiynydd y Gymraeg ddiolch i Gymdeithas y Cyfreithwyr am ei nawdd hael tuag at y digwyddiad.



Brif Weinidog, Lywydd, Gomisiynydd, Foneddigion a Boneddigesau.

Roedd cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yn drobwynt sylweddol yn hanes y Gymraeg, nid lleiaf am iddi sicrhau am y tro cyntaf fod modd i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn achosion cyfreithiol yng Nghymru gan unrhyw barti, dyst neu unrhyw un arall sy'n dymuno defnyddio'r iaith. Mae nodi hanner canmlwyddiant y Ddeddf ar y cyd â'r gynhadledd hon yn rhoi cyfle arbennig i asesu'r hyn sydd wedi ei gyflawni ac rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i draddodi ar y pwnc hwn heno.

Os ystyriwn am ennyd hanes y Gymraeg mewn llysoedd yn y wlad hon, gallwn weld y trawsnewidiad enfawr a gyflawnwyd. Un o'r rhesymau a roddir yn Neddf Uno 1536 dros ddwyn Cymru dan adain Lloegr oedd hyn:

the People of the same Dominion have and do daily use a Speech nothing like, nor consonant to the natural Mother Tongue used within this Realm.

O ganlyniad i'r ddeddf honno, meddiannwyd Cymru a gorchmynnwyd y gwaharddiad iasol hwnnw:

that from henceforth no Person or Persons that use the Welsh Speech or Language shall have or enjoy any Manner Office or Fees within this Realm of England, Wales or other the King's Dominions.

Roedd y gwaharddiad hwnnw ar siaradwyr Cymraeg rhag dal swyddi yn cynnwys swyddi barnwrol, wrth gwrs.

Mae'n ymddangos, er hynny, fod y Gymraeg yn dal i gael ei defnyddio mewn llysoedd o bob lefel yng Nghymru yn ystod y canrifoedd dilynol. Câi hefyd ei defnyddio'n eang mewn Llysoedd Sirol yng Nghymru wedi iddynt gael eu sefydlu yn 1846. Arweiniodd hyn, fodd bynnag, at anghymeradwyaeth swyddogol sylweddol. Yn 1847 roedd gan Adroddiad y Llywodraeth ar Addysg yng Nghymru bethau mawr i'w dweud am y defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol a'r defnydd ohoni mewn llysoedd yn benodol. Cafodd y Cymry eu cythruddo i'r fath raddau gan yr adroddiad nes y daeth i gael ei adnabod fel Brad y Llyfrau Gleision. Daeth y Comisiynwyr i'r casgliad:

The evil of the Welsh language [...] is obviously and fearfully great in courts of justice [...] It distorts the truth, favours fraud, and abets perjury, which is frequently practised in courts, and escapes detection through the loop-holes of interpretation [...] The mockery of an English trial of a Welsh criminal by a Welsh jury, addressed by counsel and judge in English is too gross and

shocking to need comment. It is nevertheless a mockery which must continue until the people are taught the English language...<sup>1</sup>

Roedd yr ateb yn amlwg – rhoi terfyn ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Rwy'n falch o ddweud bod gwelliant graddol wedi dod i statws cyfreithiol y Gymraeg gyda'r ugeinfed ganrif. Cafodd y cymal iaith yn Neddf 1536 ei ddiddymu gan adran 1, Deddf Llysoedd Cymru 1942. Nid oedd hynny, fodd bynnag, yn ddigon i sefydlu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd; nid oedd mewn gwirionedd yn golygu fawr mwy na hyn:

the Welsh language may be used in any court in Wales by any party or witness who considers that he would otherwise be at any disadvantage by reason of his natural language of communication being Welsh.

Daeth y datblygiad allweddol gyda chyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg 1967. Roedd y statud hwn yn caniatáu i unrhyw barti, tyst neu unrhyw un arall a ddymuna defnyddio'r Gymraeg yn y llys wneud hynny:

22.—(1) In any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in a court other than a magistrates' court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision for interpretation shall be made accordingly.

(2) Any power to make rules of court includes power to make provision as to the use, in proceedings in or having a connection with Wales, of documents in the Welsh language.

Yna yn 1993, sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg yr egwyddor ganlynol:

wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal...<sup>2</sup>

Mae'r newidiadau hyn mewn deddfwriaeth wedi cydreddeg â newidiadau tebyg yn agweddau pobl tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Cymharwch y datganiadau cyferbyniol hyn gan uwch farnwyr. Yn 1943, gwnaeth yr Arglwydd Brif Ustus Caldecot y sylw allfarnwrol:

---

<sup>1</sup> Adroddiadau a phapurau'r *Reports of the Commissioners of Inquiry into the State of Education in Wales*, Cyfrol 27, 1847, Rhan ii, 66.

<sup>2</sup> Teitl estynedig Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Welsh is a foreign language to me and, to tell you the truth, I do not know that I feel very sympathetic to this plan for keeping alive what, like Erse and Gaelic, is really a dying language.

Yn 1967, gwnaeth yr Ustus Widgery, a ddaeth yn Arglwydd Brif Ustus yn ddiweddarach, y sylw canlynol:

I think it is quite clear that the proper language for court proceedings in Wales is the English language. It is to my mind a complete misapprehension to believe that anybody at any time has a right to require that the proceedings be conducted in Welsh. The right which the Act of 1942 gives is the right for the individual to use the Welsh language if he considers that he would be at a disadvantage in expression if he were required to use English. That is the only right which the Act of 1942 gives, and apart from that, the language difficulties which arise in Wales can be dealt with by discretionary arrangements for an interpreter, precisely in the same way as language difficulties at the Central Criminal Court are dealt with when the accused is a Pole.<sup>3</sup>

Mewn cyferbyniad i'r sylwadau hynny, cyfeiriodd y Barnwr Arglwydd Ustus, fel ag ydoedd ar y pryd, at y gwaharddiad a geir yn Neddf 1536 yn erbyn defnyddio'r Gymraeg yn ei ddyfarniad yn y Llys Apêl yn ystod achos *Williams v. Cowell* yn 2000, ac ategodd:

In other words Welsh people appearing in courts in Wales, litigating over problems in their own country, were prohibited from using their own language. Mr Williams and those who support him no doubt regard this legislation, and the subsequent Act of 1542 [...] as an outrage [...] For what it is worth I agree with them.<sup>4</sup>

Ym mis Mehefin 2011 a'r Arglwydd Farnwr, Arglwydd Brif Ustus, yn traddodi darlith ar statws cyfreithiol y Gymraeg i agor Sefydliad Hywel Dda ym Mhrifysgol Abertawe, clôdd ei ddarlith a'r geiriau:

Here in Wales, speaking as Lord Chief Justice of Wales, I can only urge you to safeguard your language. Guard it well.<sup>5</sup>

Mae'n ymddangos i mi yn anghenraid sylfaenol o ran tegwch bod tystion, ymgyfreithwyr ac eraill sy'n defnyddio'r llysoedd yng Nghymru yn cael mynegi eu

---

<sup>3</sup> *R. v. Merthyr Tydfil Justices, ex parte Jenkins* [1967] 1 All ER, 636.

<sup>4</sup> [2000] 1 WLR 187. Penderfynodd y Llys Apêl nad oedd sail statudol er mwyn caniatáu trafodion yn Gymraeg pan fo'r Llys yn cwrdd yn Llundain. Fodd bynnag, mae Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth bellach â'i gartref yng Nghymru. R.G. Parry, 'Yr Iaith Gymraeg a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth – ystyried y penderfyniad yn *Williams v. Cowell* (2001), 1 *Wales Law Journal*, 178; Timothy H. Jones and Jane M. Williams, 'Wales as a Jurisdiction', [2004] *Public Law* 78, 98.

<sup>5</sup> Yr Arglwydd Farnwr, 'The Welsh Language: Some Reflections on its History', Prifysgol Abertawe, 22 Mehefin 2011.

hunain mewn llys yn Gymraeg, yr iaith y maent yn ei ddefnyddio o ddydd i ddydd. Caiff y Gymraeg ei defnyddio'n aml mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru heddiw gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Yn ystod y flwyddyn cyn mis Mawrth 2017, cynhaliwyd 395 o achosion yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy'r Gymraeg. Digwyddodd y rhan fwyaf o'r achosion hyn mewn llysoedd yng Ngogledd-orllewin Cymru sy'n dal i fod yn gadarnle i'r iaith. Cafwyd 53 achos yn Llysoedd y Goron, 193 achos yn y Llysoedd Sirol a 149 achos yn y Llysoedd Ynadon. Yn 2006, cynhaliwyd treial am lofruddiaeth yn Gymraeg gerbron Yr Ustus Roderick Evans yn Llys y Goron Caernarfon. A dylwn gyfeirio hefyd at achos penodol lle defnyddiwyd y Gymraeg i gyflwyno dadl gyfreithiol fanwl. Yn 2014, heriodd Comisiynydd y Gymraeg benderfyniad Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol i ymwrthod â'u cynllun iaith. Roedd yr argymhellion ysgrifenedig i gyd – yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r dogfennau – yn Gymraeg a defnyddiodd cwnsleriaid y Gymraeg neu'r Saesneg fel y dymument yn ystod y gwrandawriad. Cyflwynodd y llys ei ddyfarniad yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg, mae Barnwriaeth Gymraeg ei hiaith wedi datblygu. Gan gynnwys y Farnwriaeth ran-amser, mae heddiw 40 o farnwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae chwarter y Barnwyr Cylchdaith a'r Barnwyr Rhanbarth yng Nghymru yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg. Mae eraill sy'n dysgu Cymraeg ac sydd â digon o afael ar yr iaith i allu deall tystiolaeth sy'n cael ei roi yn Gymraeg. Cyn belled ag y bo penodi barnwyr yn y cwestiwn, mae bellach yn bosibl nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer penodiad i swydd benodol, ac mae hyn yn digwydd yn aml. Yn yr un modd, mae'n bosibl ers 2010 i hysbysebu am ynadon sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae dros 200 o ynadon sy'n gallu cynnal achosion yn Gymraeg ar hyn o bryd a bydd hyn yn sicrhau bod modd cynnal os nad cynyddu'r nifer o ynadon sy'n medru'r Gymraeg.

Mae nifer o ddatblygiadau cyfochrog yn cefnogi'r defnydd o Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru.

- Mae Pwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn bodoli er mwyn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Mae ei aelodau'n cynrychioli'r farnwriaeth, gweithwyr ym myd y gyfraith, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder.
- Mae Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru yn cydlynu hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer cyrrff cyhoeddus sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder.
- Mae Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi a'i Uned Gymraeg, sydd wedi ei leoli yng Nghaernarfon, wedi gwneud gwaith ardderchog yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd.
- Mae gan y llysoedd y fantais o fod â ieithyddion arbenigol sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ardderchog.
- Mae'r Coleg Barnwrol yn darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer y farnwriaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys.

- At ei gilydd, mae agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyfundrefn y llysoedd.

Yn fwy cyffredinol:

- Mae llawer o waith wedi cael ei wneud gan ysgolheigion, ymarferwyr a barnwyr i ddatblygu terminoleg safonol fodern ar gyfer y gyfraith gan wneud y Gymraeg yn iaith addas i fod yn iaith cyfraith.
- Mae pob un o'r pum ysgol y gyfraith yng Nghymru bellach yn cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae cyfres o werslyfrau Cymraeg ar gyfer maes y gyfraith yn cael eu cynhyrchu.
- Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn cyhoeddi papurau ynghylch diwygio'r gyfraith yn Gymraeg. Yn fwyaf nodedig, cyhoeddwyd ei adroddiad 'Rhentu Cartrefi yng Nghymru' yn Gymraeg ac yn Saesneg.<sup>6</sup> Wrth i gyfraith Lloegr a chyfraith Cymru dyfu i wahanol gyfeiriadau, mae gan y Comisiwn rôl hanfodol i'w gyflawni wrth gynnig diwygiadau i'r gyfraith a cheisio sicrhau bod cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
- Felly, nid yw defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd ond yn un rhan o ddatblygiad hynod – sy'n cael ei adnabod fel Cymru'r Gyfraith – lle mae'r iaith yn chwarae rhan bwysig.
- Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl heb Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967 a fu'n sail i ddatblygiadau pellach.

Mae un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu yn hyn o beth yn ymwneud â deddfwriaeth ddwyieithog. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn creu deddfwriaeth ag iddi destun Cymraeg a Saesneg lle dylid trin y testunau yn y ddwy iaith yn gyfartal.<sup>7</sup> O ganlyniad, mae gennym am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig deddfwriaeth ddwyieithog:

- Mae hyn yn creu gofynion newydd o ran terminoleg gyfreithiol.
- Mae'n gofyn am sgiliau newydd o ran drafftio dwyieithog. Cyn dyfodiad datganoli, nid oedd profiad yn y Deyrnas Unedig o lunio deddfwriaeth mewn dwy iaith. Fodd bynnag, mae natur ddwyieithog deddfwriaeth Cymru bellach yn ganolog i rôl y rhai hynny sy'n gyfrifol am ddrafftio'r deddfwriaeth honno. Fel y nododd yr Athro Thomas Watkin:

The Welsh text of such bilingual legislation was not to be a quaint addition to the authoritative English text for the convenience of those

---

<sup>6</sup> *Rhentu Cartrefi yng Nghymru/Renting Homes in Wales*, Comisiwn y Gyfraith Rhif 337, Cm 8578, (2013).

<sup>7</sup> Adran 156, Deddf Llywodraeth Cymru, 2006.

who wished to access the text in their native tongue, but a fully equivalent expression of the legislative intention.<sup>8</sup>

Dyma faes lle mae'r Cynulliad wedi dysgu llawer gan Canada.

- Bydd yn rhaid i'r barnwyr hwythau ddysgu sgiliau newydd o ran dadansoddi deddfwriaeth ddwyieithog. Mae hynny'n rhywbeth nad ydym erioed wedi gorfod ei wneud o'r blaen.

Nid dyma'r achlysur i drafod yr anawsterau technegol niferus sy'n codi yng nghyswllt dadansoddi deddfwriaeth ddwyieithog. Fe ddywedaf yn syml mai fy marn i yw y dylai dadansoddi deddfwriaeth ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg anelu at ganfod a gweithredu bwriad y ddeddfwriaeth a chadw statws gyfartal y ddwy iaith ar yr un pryd. Fodd bynnag, ni fydd cyflawni'r ddau amcan hyn yn llawn yn bosibl bob tro a gall tyndra godi rhyngddynt weithiau. Mae'n anochel y cwyd anghysonderau rhwng testunau o ieithoedd gwahanol a rhaid fydd datrys hynny. Ar y llaw arall, er i destunau yn y ddwy iaith fwriadu cyfleu'r un ystyr, daw adegau lle bydd cael testun yn y ddwy iaith yn cynorthwyo i gadarnhau ystyr.

Mae system ddeddfwriaeth sy'n defnyddio dwy iaith, a'r ddwy ag awdurdod cyfartal, yn sicr o osod gofynion newydd ar bobl. Bydd galw penodol am sgiliau ieithyddol gan rai lle mae eu swyddi neu eu proffesiwn yn gofyn am allu deall a chymhwyso'r gyfraith. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos gweithwyr ym maes y gyfraith ac, yn anad neb, y Farnwriaeth yr ydym yn dibynnu arni am ddehongliadau pendant o gyfraith statud. Fe arweinia hyn yn amlwg at oblygiadau wrth benodi barnwyr ac ynadon.

Mae deddfwriaeth ddwyieithog hefyd yn gosod gofynion ar addysg a hyfforddiant yn y gyfraith. Rhaid i bob un sy'n dymuno gweithio ym maes y gyfraith yng Nghymru, p'un ai'n rhugl yn y Gymraeg ai peidio, fod â gwybodaeth sylfaenol am weithredu system gyfreithiol ddwyieithog. Mae'n bwysig felly fod astudio deddfwriaeth ddwyieithog a'r dehongliad ohoni yn rhan o gwrs gradd prifysgol yn y gyfraith yng Nghymru. Mae hefyd angen penodol i barhau â hyfforddiant er mwyn galluogi barnwyr i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'u gallu i ddefnyddio'r iaith yn y llys. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Coleg Barnwrol wedi bod yn darparu cyrsiau hyfforddi blynyddol ar gyfer y farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg, cyrsiau sydd wedi cael eu croesawu'n fawr gan y mynychwyr. Mae'n debyg y bydd angen ehangu a datblygu'r ddarpariaeth hon.

Ar achlysur hanner can mlwyddiant Deddf yr Iaith Gymraeg, mentraf awgrymu bod lle yma i longyfarch. Darparodd y Ddeddf sylfaen gadarn ar gyfer yr hyn a gyflawnwyd. Yn anad dim, mae cryn ewyllys da o fewn y system gyfreithiol tuag at y Gymraeg ac mae defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd bellach yn cael ei ystyried yn gwbl normal. Y Mae, wrth gwrs, lawer eto i'w wneud – ond rydym wedi dechrau arni'n go dda.

---

<sup>8</sup> Thomas Glyn Watkin, *Bilingual Legislation: Awareness, Ambiguity and Attitudes*.